**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Heledd Fychan AS
Heledd.Fychan@senedd.wales

12 Mai 2023

Annwyl Heledd,

Yn ystod y drafodaeth yn dilyn fy Natganiad Llafar ar 25 Ebrill, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am weithredu 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg', fe wnaethoch ofyn am ddata ynghylch nifer y myfyrwyr sy'n paratoi ar hyn o bryd i addysgu ar gwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), a'r nifer sydd wedi cofrestru i hyfforddi o fis Medi 2023 ymlaen.

Mae data swyddogol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol a bydd y data ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 yn cael eu cyhoeddi tua diwedd mis Mai. Er mwyn darparu'r data diweddaraf, rydym wedi cyrchu data answyddogol yn uniongyrchol gan ddarparwyr AGA, ac wedi rhannu'r data hyn isod gyda'u caniatâd. Nodwch fod ceisiadau ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ym mis Medi 2023 yn parhau ar agor a bydd y data hyn yn newid.

**Nifer y myfyrwyr sy'n paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn academaidd 2022/23**

| | **BA Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig (yn eu trydedd flwyddyn)** | **TAR Cynradd** | **TAR Uwchradd** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Y Brifysgol Agored | Amh* | 12 | 13 | 25 |
| Prifysgol De Cymru | 1 | 1 | Amh* | 2 |
| Prifysgol Abertawe | Amh* | 3 | 8 | 11 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 16 | 26 | 36 | 78 |
| Prifysgol Bangor | 17 | 28 | 21 | 66 |
| Prifysgol Aberystwyth | Amh* | 8 | 5 | 13 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 13 | 18 | 3 | 34 |

*Amh, amherthnasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Nifer yr unigolion sydd wedi gwneud cais am le ar raglen AGA i baratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn academaidd 2023/24**

| | BA Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig | | TAR Cynradd | | TAR Uwchradd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynigion | Derbyniadau | Cynigion | Derbyniadau | Cynigion | Derbyniadau |
| Y Brifysgol Agored | Amh* | Amh* | 16 | 13 | 8 | 7 |
| Prifysgol De Cymru | 10 | I’w gadarnhau | 6 | I’w gadarnhau | Amh* | Amh* |
| Prifysgol Abertawe | Amh* | Amh* | 6 | 2 | 6 | 3 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 42 | 19 | 36 | 21 | 31 | 19 |
| Prifysgol Bangor | 27 | 20 | 15 | 12 | 16 | 10 |
| Prifysgol Aberystwyth | Amh* | Amh* | 18 | 8 | 5 | 2 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 27 | 12 | 34 | 17 | 1 | 1 |

*Amh, amherthnasol.

Fe wnaethoch hefyd ofyn sut mae darparwyr yn cael eu monitro. Mae ein partneriaethau AGA wedi bod yn cyflwyno’r rhaglenni AGA newydd ers blwyddyn academaidd 2019/20. Mae’r gofyniad i bartneriaethau AGA weithio tuag at sefyllfa lle mae o leiaf 30% o’r myfyrwyr a dderbynnir yn flynyddol yn paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod ar waith ers blwyddyn academaidd 2020/21.

Rôl Bwrdd Achredu Addysg Athrawon annibynnol Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw craffu ar bob rhaglen AGA a gyflwynir i’w darparu yng Nghymru. Mae’r arbenigwyr ar y Bwrdd yn sicrhau bod pob rhaglen yn heriol, bod ganddi hygrededd a’i bod yn briodol yn broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys craffu ar strategaethau recriwtio partneriaethau AGA ar gyfer llenwi’r lleoedd sydd wedi’u dyrannu iddynt gydag ymgeiswyr galluog o safon. O dan Reoliadau 2012, ni all unrhyw raglen AGA yng Nghymru ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig heb fod y Bwrdd wedi’i hachredu.

Yn ogystal â’r broses gychwynnol i sicrhau achrediad ar gyfer eu rhaglenni AGA, mae partneriaethau AGA yn destun gwaith monitro parhaus gan y Bwrdd. Mae hyn yn un o swyddogaethau statudol CGA a gellir diddymu statws achrededig rhaglen os bydd gwaith monitro yn datgelu nad yw’n bodloni’r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru mwyach. Hefyd, bydd statws achrededig yn para am gyfnod penodedig yn unol ag argymhelliad y Bwrdd. Os na fydd ffurflenni monitro a ddychwelir i CGA yn dangos cynnydd yn nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg, efallai y bydd yn ofynnol i bartneriaethau ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o’u camau gweithredu i gyflawni hyn.

Oherwydd effaith ddifrifol y pandemig, mae’r gwaith o fonitro, gan gynnwys prosesau recriwtio fel amod achredu, wedi bod yn llai manwl. Mae blwyddyn academaidd 2022/23, yn cynrychioli’r drydedd flwyddyn o ddarparu o dan y system AGA newydd ac mae recriwtio ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn mynd rhagddo. Pan fo partneriaethau AGA yn methu’n gyson â recriwtio’n ddigonol yn unol â’u dyraniadau, gall CGA ailddyrannu lleoedd ar draws rhaglenni AGA os bydd y galw’n fwy na’r cyflenwad mewn rhai ardaloedd neu bynciau neu, i’r gwrthwyneb, os na fydd yn cyrraedd y lefelau gofynnol.

Mae’r ddogfen meini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 10 Mai, yn cryfhau’r gofynion ynghylch recriwtio a rôl ysgolion mewn partneriaethau AGA ymhellach. Mae ysgolion sy’n ymwneud ag AGA yn bartneriaid cyfartal ac yn atebol ar y cyd am bob agwedd ar raglenni AGA gyda’u partner Sefydliad Addysg Uwch, gan gynnwys perfformiad recriwtio. Mae holl ysgolion Cymru, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn AGA ar hyn o bryd, yn hollbwysig er mwyn recriwtio myfyrwyr AGA. Maent yn rhan allweddol o’r cyflenwad o athrawon dan hyfforddiant i raglenni AGA gan ddarparu unigolion galluog o safon uchel sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ellir gorbwysleisio eu rôl a’u cyfrifoldeb o ran ennyn diddordeb, cynhyrchu, a chefnogi darpar athrawon yn y dyfodol.

Rwyf wedi bod yn glir bod cyrraedd y targedau ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon yn gofyn am weithio mewn partneriaeth. Rwyf wedi sefydlu Grŵp Gweithredu Allanol, sy’n cynnwys yr holl sefydliadau sy’n allweddol i ddatblygu’r camau gweithredu, er mwyn sicrhau dull cydlynol o ddarparu cynllun eang.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language